# Adroddiad Arolygu

**Cartref Gofal Wynne Crest**

**Wynne Crest**
**23-25**
**Ffordd Cadwgan**
**Bae Colwyn**
**LL29 9RE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Wynne Crest

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Wynne Crest Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20.10.20 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r gofal a ddarperir i'r bobl o ansawdd da ac yn unol â chynlluniau personol unigol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu hadolygu fel mater o drefn.  Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn diwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r bobl yn gyfforddus â'r holl staff, a gwelsom gydberthynas gadarnhaol a pharchus rhyngddynt. Mae'r staff gofal yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rolau gofalu. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal ac mae'r rhain yn cael eu hategu a'u hyrwyddo i'r staff drwy sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd. Mae rheolwyr ar gael, yn weladwy, ac yn angerddol am y gwasanaeth. Mae'r amgylchedd yn lân, yn gynnes, yn gartrefol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn ymateb yn dda i'r staff gofal, sy'n gweithredu mewn modd galluogol ac maent ar gael i gefnogi a helpu'r bobl yn ôl yr angen. Caiff y bobl eu hannog i gymdeithasu â'i gilydd, sy'n dda i'w llesiant. Mae croeso i ymwelwyr, boed yn weithwyr proffesiynol neu'n deulu. Cynhelir cyfarfodydd staff a phreswylwyr rheolaidd i sicrhau fod pawb yn lleisio eu barn am y ffordd maent yn dymuno byw eu bywydau yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i fod mor iach ac actif â phosibl. Gwelsom y bobl yn mwynhau dewis o brydau bwyd iach. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd. Caiff iechyd y bobl ei fonitro'n agos, ac mae'r staff gofal yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal, y rheolwyr a'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyfathrebu'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn trefnu apwyntiadau iechyd amserol, yn eu cadw ac yn eu dilyn.  Mae'r staff gofal yn arbennig o gefnogol cyn, yn ystod ac ar ôl apwyntiadau yn y gwasanaeth neu y tu allan iddo. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae'r teulu yn croesawu ymweliadau gan deulu a ffrindiau. Dywedodd yr ymwelwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a gaiff eu teulu. Mae rhai yn ymweld â'r gwasanaeth bob dydd. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau. Mae gan y staff gofal a'r rheolwyr ymagwedd anogol a chroesawgar; mae'r ymagwedd hon yn allweddol wrth gynnal y cyswllt hwn.

Mae mesurau diogelu ar waith i leihau risgiau i'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg priodol a manwl, sy'n seiliedig ar anghenion unigol. Caiff y staff gofal eu hyfforddi yn ôl y gofyn i'w galluogi i wybod beth i'w wneud pe baent yn pryderu am lesiant pobl. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gofal a ddarperir ac yn cynnal gwiriadau monitro ansawdd gofal a diogelwch yr amgylchedd. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a chaiff ei fonitro'n rheolaidd am beryglon ac i sicrhau bod y cynllun yn gweddu anghenion unigol y bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn gywir yn unol ag anghenion unigol y bobl. Mae'r staff gofal a'r rheolwyr yn monitro ac yn adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn unol ag anghenion gofal y bobl. Caiff y rhain eu haddasu os bydd anghenion gofal yn newid. Caiff gwybodaeth gan gyngor a chymorth proffesiynol ei chynnwys yn y cynlluniau personol, ac mae'r staff gofal yn effeithiol wrth weithredu ar gyngor a chanllawiau gan weithwyr proffesiynol. Gwnaethom edrych ar bedwar cynllun personol a gwelsom eu bod yn cynnwys gwybodaeth fanwl gan y bobl a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Mae gwybodaeth am ddymuniadau'r bobl, eu credoau, eu dewisiadau a'u harferion yn rhan ganolog o'r broses o lunio'r cynlluniau personol. Caiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo lle y bo'n bosibl. Mae'r manylion a gofnodir yn y cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion gofal unigol. Caiff y gofal a ddarperir ei oruchwylio'n effeithiol gan y rheolwyr, sy'n golygu bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da.

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal iechyd sydd ei angen arnynt. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl gyda gwybodaeth am anghenion gofal ac iechyd y bobl. Caiff cofnodion, tystiolaeth, ymgynghoriadau, gwybodaeth a chanllawiau clir a ddarperir gan weithwyr iechyd proffesiynol eu cynnwys wrth gynllunio gofal y bobl. Mae'r staff gofal yn cyfeirio at y cofnodion hyn i sicrhau eu bod yn darparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir. Gwelsom gofnodion o ohebiaeth reolaidd rhwng Ymarferwyr Cyffredinol, Nyrsys Ardal a gweithwyr proffesiynol eraill. Gwelsom fod nifer o sgyrsiau wedi cael eu cynnal dros y ffôn â gweithwyr proffesiynol amrywiol yn ystod ein hymweliad. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym, *"This is a very good service"* a "*The care is really good quality".*
Caiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith cynllunio hwn.

Mae systemau rheoli meddyginiaeth diogel ar waith. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y matrics hyfforddiant ac yn ffeiliau'r staff. Dywedodd y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth gwblhau'r broses rhoi meddyginiaeth. Gwelsom sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR); maent yn cynnwys cofnodion clir a chywir wedi'u llofnodi'n briodol.
Gwelsom y polisi meddyginiaeth a oedd wedi cael ei adolygu. Mae'n cynnwys canllawiau manwl am oruchwylio'r prosesau ar gyfer archebu, ailarchebu, gweinyddu a gwaredu meddyginiaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff gofal.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i nodi a lleihau'r risg i'r bobl. Mae mynedfa'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae wedi'i haddurno mewn ffordd chwaethus, yn groesawgar, yn gynnes ac yn lân. Mae nifer o ystafelloedd byw cymunedol ar gael i'r bobl ddewis lle y dymunant dreulio eu hamser. Mae ystafelloedd y bobl yn gartrefol ac wedi'u personoli. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd ac wedi setlo ynddynt. Mae ardal eistedd yn yr awyr agored, lle gall y bobl dreulio amser yn ystod y misoedd cynnes.

Gwnaethom edrych ar gofnodlyfr cynnal a chadw'r gwasanaeth; caiff llofnodion a dyddiadau eu cofnodi ar dasgau sydd wedi'u cwblhau. Caiff pob ardal angenrheidiol ei chloi er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Gwelsom fod cymhorthion symudedd yn cael eu monitro o fewn yr amserlenni gofynnol. Caiff dyfeisiau trydanol eu gwirio hefyd. Caiff eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Dengys cofnodion y cynhelir gwiriadau diogelwch fel mater o drefn mewn perthynas â materion fel tymheredd dŵr, legionella, cyfarpar tân a diogelwch tân. Llwyddodd y cartref i gynnal sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl y gellir ei hennill.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau llywodraethu ar waith ac mae'r darparwr yn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gadarn. Caiff y gofal a ddarperir ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Roedd y sampl o gofnodion a welsom yn dystiolaeth o hyn. Mae adolygiadau o'r gofal, gan gynnwys asesiadau risg, yn fanwl ac yn gyfredol. Hefyd gwelsom archwiliadau'n cael eu cynnal, sy'n dangos y caiff y gofal ei oruchwylio'n effeithiol. Gwelsom feysydd yn cael eu nodi er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith, sy'n arwain hyfforddiant a chymorth y staff. Mae'r Datganiad o Ddiben diweddaraf yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio ansawdd y gofal. Mae'n annog y bobl, teuluoedd sy'n ymweld â'r gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol i roi adborth. Caiff adroddiadau eu llunio yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol yn rheolaidd.

Mae niferoedd priodol o staff sy'n cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi'n ddiogel. Gwelsom fod digon o staff ar gael ar ddiwrnod ein hymweliad. Roedd y rotas staff a welsom ar gyfer y ddeufis diwethaf hefyd yn dangos bod digon o staff ar gael i ofalu am y bobl. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod digon o staff gofal ar gael iddynt allu darparu gofal o ansawdd da. Dywedwyd wrthym eu bod yn *“supported*” ac yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Gwelsom ffeiliau pedwar aelod o'r staff gofal sy'n dangos hyn. Mae'r matrics hyfforddiant yn gyson â'r cofnodion hyfforddiant yn ffeiliau’r staff gofal. Gwelsom fod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol bob chwarter ac arfarniadau blynyddol ffurfiol yn unol â'r gofynion.

Mae'r darparwr yn cyfathrebu â chyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, yn effeithiol ac yn eu hysbysu'n effeithiol yn ôl yr angen. Gwelsom yr hysbysiadau a anfonwyd at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sy'n gyson â'r cofnodion a ddelir gan AGC. Caiff hysbysiadau priodol eu hanfon at yr Awdurdod Lleol hefyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio â 'Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017' mewn perthynas â Rheoliad 66: Goruchwylio rheolaeth y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/09/2023